Cofnodion Cyfarfod Arbennig 22ain o Fai 2012 a gynhaliwyd yn y Neuadd Goffa, Y Felinheli am 7 o'r gloch.

1.0 YN BRESENNOL

Ken Brown
Lena Ashley
Iestyn Harris
George Smith
Daniel Williams
Hywel Vaughan Jones
Gareth Griffiths

2.0 GAIR O GROESO A SYLWADAU AGORIADOL

2.1 Croesawyd yr aelodau gan y Cadeirydd Ken Brown i gyfarfod arbennig o ganlyniad cyfarfod a gynhaliwyd rhyngddo ef, aelodau Pwyllgor Rheoli'r Neuadd ac Alun Meirion Pensaer y Neuadd. O ganlyniad y cyfarfod hwn roedd angen gwneud penderfyniad yn y cyfarfod hwn ynglŷn â'r gorwariant.

Ymddiheuriadau Eluned Owen, Siân Gwenllïan, Pat Jones

3.0 DATGAN DIDDORDEB - Neb

4.0 Y NEUADD GOFFA

4.1 Yn ei swydd fel Cadeirydd Pwyllgor Rheoli'r Neuadd fe roddodd y Cynghorydd Harris eglurhad manwl ar sefyllfa ariannol y Neuadd Goffa.

4.2 Yn dilyn cyflwyniad y Cynghorydd fe gafwyd trafodaeth gynhwysfawr.

4.3 Cynigiodd y Cadeirydd bod Pwyllgor yn defnyddio £3,000 oedd ganddynt yn y cyfrif a bod grant yn cael ei gynnig gan y Cyngor Cymuned am y gweddill I'w dalu mewn 3 rhan o fewn 6 mis a bod y pwyllgor yn sicrhau'r ad-daliad i'r Cyngor cyn gynted a bo bodd.

Penderfynwyd Bwyllgor Rheoli'r Neuadd dalu £3000 i'r adeiladwr yn syth a thalu'r gweddill mewn rhandaliadau o fewn cyfnod o 6 mis.

5.0 HYFFORDDIANT UN LLAIS

5.1 Mae hyfforddiant ar gyfer Cynghorwyr newydd ar gael yn y Gymraeg ar y 6ed o Fehefin 2012 yn yr hwyr yng Nghaernarfon.

5.2 Cafwyd trafodaeth pwy fyddai yn elwa o'r hyfforddiant.

5.3 Fel Cynghorydd a chyfrifoldeb am Hyfforddiant o fewn y Cyngor dywedodd y Cynghorydd Daniel Williams pwy oedd wedi mynychu'r hyfforddiant cynt.

Penderfynwyd y byddai o fudd i Cynghorydd Hywel V Jones a Cynghorydd Gareth Griffiths fynychu'r cwrs ar y 6ed o Fehefin 2012. Y Clerc i gysylltu ag Un Llais i gadw lle.

6.0 CEISIADAU CYNLLUNIO

6.1 C12/0572/20/LL – Estyniad unllawr yn y cefn 11 Terfyn Terrace y Felinheli. Cyflwynodd y cais i'r aelodau gan y Cynghorydd Daniel Williams, ystyriwyd y cais a phenderfynwyd nad oedd dim gwrthwynebiad.

Y Clerc i hysbysu'r Gwasanaeth Cynllunio o benderfyniad y Cyngor.

7.0 UNRHYW FATER ARALL

7.1 Roedd y gwaith o drwsio'r cysgodfan wedi ei gwblhau a dywedodd y Swyddog ariannol ei fod wedi derbyn yr anfon am y gwaith sef £1,530 a byddai ad-daliad Taw yn dod i law.

Penderfynwyd awdurdodi'r Swyddog Ariannol i dalu'r anfoneb.

Gadawodd y Cynghorydd Lena Ashley y cyfarfod am 8 yn yr hwyr a daeth y cyfarfod i ben am 8:10 yn yr hwyr.

Llofnod:……. Dyddiad:…….